Rhif Cyfeirnod: BIP 454 **Rhif y Fersiwn:** 2	**Dyddiad yr Adolygiad Nesaf: 09/2025** **Rhif Cyfeirnod blaenorol yr Ymddiriedolaeth / BILl:** *Amh*

Y Polisi Dysgu, Addysg a Datblygu (DAD)

Datganiad Polisi

Mae BIP Caerdydd a'r Fro yn sefydliad sy'n rhoi ei staff a'i gleifion wrth wraidd popeth y mae'n ei wneud. Mae'r BIP yn cydnabod na all y sefydliad barhau i wasanaethu ei gymunedau, darparu rhagoriaeth mewn gofal tosturiol, a datblygu gwasanaethau arloesol heb staff iach, brwdfrydig a chymhellol. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r sefydliad wedi ymrwymo i ddarparu diwylliant dysgu lle mae staff yn cael eu meithrin a'u hannog i ddysgu a datblygu ym mhob cam yn eu gyrfa, ac ym mhob rôl a phroffesiwn.

Darperir dysgu, addysg a datblygu staff i alluogi staff i fod y gorau y gallant yn y gwaith, gan weithredu gwerthoedd y BIP drwy'r ymddygiadau y maent yn eu harddangos ym mhob rhyngweithiad a phenderfyniad y maent yn ei wneud, a rhoi gofal sy'n canolbwyntio ar y claf wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae angen i'r BIP sicrhau bod gan staff yr adnoddau a'r sgiliau i ymgymryd â'u rôl ac mae wedi ymrwymo i sicrhau bod pob aelod o staff yn dysgu a datblygu'n briodol i ddiwallu anghenion nodau ac amcanion strategol y BIP.

Mae argaeledd staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn un o benderfynyddion allweddol ansawdd gofal a phrofiad cleifion.

Mae gan bob gweithiwr proffesiynol ddyletswydd bersonol fel y nodir yn eu 'Codau Ymddygiad' i gynnal eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy gydol eu bywydau gwaith.

Ymrwymiad Polisi

Byddwn yn cyflawni hyn drwy;

- Sicrhau y darperir cwrs sefydlu staff effeithiol sy'n cyfeirio ac yn cefnogi dechreuwyr newydd i ddeall gofynion cwblhau eu gofynion hyfforddiant statudol / gorfodol.
- Darparu cefnogaeth a hyfforddiant i bob rheolwr a goruchwyliwr i alluogi darparu Arfarniadau ar Sail Gwerthoedd clir ac ystyrlon yn effeithiol, gan gynnwys arweiniad wrth gofnodi canlyniadau ar y Cofnod Staff Electronig.
- Sicrhau bod staff presennol yn glir ynghylch eu gofynion Hyfforddiant Statudol / Gorfodol trwy gyfathrebu targedig, rheolaidd, gan fonitro cydymffurfiaeth drwy'r broses Arfarniad ar Sail Gwerthoedd.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r weithdrefn a'r amserlenni cywir ar gyfer gwneud cais am absenoldeb astudio ac adolygu'r weithdrefn yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn effeithiol a pherthnasol.
- Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gynnal safonau academaidd a bod camarfer yn cael ei nodi a'i adrodd.

Teitl y Ddogfen: Y Polisi Dysgu, Addysg a Datblygu (DAD)	2o3	Dyddiad Cymeradwyo: 27.09.2022
Rhif Cyfeirnod: 454		Dyddiad Adolygu Nesaf: 27.09.2025
Rhif y Fersiwn: 2		Dyddiad Cyhoeddi: 25.10.2022
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni		

Gweithdrefnau Ategol a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig

Mae'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau ategol yn disgrifio'r canlynol o ran DAD.

- Gweithdrefn Arfarniadau ar Sail Gwerthoedd
- Gweithdrefn hyfforddiant statudol / gorfodol
- Canllawiau Absenoldeb Astudio
- Gweithdrefn Absenoldeb Astudio ar gyfer Staff Meddygol a Deintyddol (nid mewn hyfforddiant)
- Camymarfer Academaidd ac Asesu Teg wrth Gyflwyno Gweithdrefn Dysgu ar Sail Credydau

Mae dogfennau ategol eraill yn cynnwys:

- Cynllun Pobl a Diwylliant 2022-2025
- Tudalennau rhyngrwyd Addysg, Diwylliant ac OD 'Eich Datblygiad'
- Pecyn Cymorth Ar-lein Arfarniad ar Sail Gwerthoedd
- Pecyn Cymorth Ar-lein Statudol / Gorfodol
- Fframwaith Cydnabod Dysgu Blaenorol

Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff ym mhob lleoliad gan gynnwys y rhai sydd â chontractau anrhydeddus

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac iechyd	Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd (AEGI) wedi'i gwblhau ar gyfer y polisi hwn a'r gweithdrefnau ategol, a nodwyd effaith gadarnhaol.
Cymeradwywyd y Polisi gan	Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni
Grŵp ag awdurdod i gymeradwyo gweithdrefnau a ysgrifennwyd i egluro sut y bydd y polisi hwn yn cael ei weithredu	Is-grŵp Polisi Cyflogaeth
Gweithredwr neu Gyfarwyddwr Bwrdd Clinigol Atebol	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant

Ymwadiad

Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi bod, sicrhewch mai'r fersiwn yr ydych yn ei defnyddio yw'r un mwyaf diweddar naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu Gyfarwyddiaeth Llywodraethu.

Teitl y Ddogfen: Y Polisi Dysgu, Addysg a Datblygu (DAD)	3o3	Dyddiad Cymeradwyo: 27.09.2022
Rhif Cyfeirnod: 454		Dyddiad Adolygu Nesaf: 27.09.2025
Rhif y Fersiwn: 2		Dyddiad Cyhoeddi: 25.10.2022
Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni		

Crynodeb o adolygiadau / diwygiadau

Rhif y Fersiwn	Dyddiad Cymeradwyo Adolygiad	Dyddiad Cyhoeddi	Crynodeb o Ddiwygiadau
1	25/06/2019	09/07/2019	Polisi newydd
2	27.09.2022		Diwygiad i'r tôn / iaith yn y datganiad polisi. Diwygiadau i'r geiriad yn yr adran Ymrwymiad Polisi i ddangos siwrnai yn hytrach na datganiadau. Dolenni at weithdrefnau ategol a dogfen wedi'i diweddaru.